ejhales

AR GYFARWYDDYD
CYNGOR CAERDYDD

CARDIFF
CAERDYDD

YSTAFELL NEWID A'R
MAES PARCIO CYFFINIOL
YM MHARC HAILEY
HEOL TŶ MAWR
YSTUM TAF
CAERDYDD
CF14 2FQ

TENDRAU ANFFURFIOL I DDOD I LAW
ERBYN DIWEDD Y DIWRNOD BUSNES
AR 24 MAWRTH 2023

029 2037 8844 • www.ejhales.co.uk @ej_hales 28 Plas Windsor • Caerdydd • CF10 3SG

LLEOLIAD

Saif Parc Hailey mewn safle canolog yn nyffryn Afon Taf. Mae Taith Taf yn mynd drwy'r parc, sy'n llwybr 55 milltir i gerddwyr a beicwyr o Aberhonddu i Gaerdydd ac mae'n ychwanegu at y cyfleusterau hamdden gwych sydd eisoes ar gael gan gynnwys ardal fawr o gaeau chwaraeon (e.e. rygbi, pêl-droed, rygbi cyffwrdd, pêl fas). Mae pen deheuol Parc Hailey yn gartref i Glwb Rygbi Ystum Taf, gyda chaeau ar y parc ar gyfer gemau a hyfforddi tra bod eu y tŷ clwb yn Radyr Road gerllaw. Mae cyfleusterau eraill yn cynnwys cyrtiau tennis ac ardal chwarae wedi'u hadnewyddu.

Mae Parc Hailey hefyd yn gartref i Glybiau Rygbi lleol sy'n chwarae ar gaeau drws nesaf i'r ystafelloedd newid (mynedfa ar hyd Heol Tŷ Mawr).

Mae'r parc yn agos iawn at ganolfan ardal Ystum Taf ar Heol yr Orsaf lle mae siopau a mwynderau eraill gan gynnwys practis milfeddyg, canolfan iechyd a chaffis.

DISGRIFIAD

Mae'r eiddo yn cynnwys ystafelloedd newid a maes parcio ym Mharc Hailey yr eir iddynt oddi ar Heol Tŷ Mawr.

Mae'r eiddo yn ymestyn i tua 4,000tr sgwâr / 372m sgwâr ac mae iddo lety swyddfa / derbynfa, ynghyd ag 11 ystafell newid a chyfleusterau WC.

Mae gan yr adeilad ei faes parcio ei hun.

Y CYNNIG

Rydym yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb at ddibenion chwaraeon a dibenion cymunedol. Yr ateb sy'n cael ei ffafrio gan y Cyngor yw i fudiad reoli'r adeilad fel ystafelloedd newid i gefnogi'r defnydd o'r caeau, er y bydd defnydd arall yn cael ei ystyried.

Mae'r Cyngor yn barod i gynnig telerau hyblyg i'r parti newydd ond ar sail lesddaliad yn unig.

Dylai unrhyw gynigion a gyflwynir ddarparu gwybodaeth lawn am sail gyfreithiol y feddiannaeth a'r elfennau ariannol sy'n gysylltiedig ag ef.

Y cynigydd a ffefrir a fydd yn gyfrifol am y gwaith cynnal a chadw, gwelliannau a'r flaenoriaeth o ran ar y caeau chwaraeon cyfagos.

Noder bod union leoliad Cae 2 i'w bennu ar ôl adeiladu Gorsaf Bwmpio Dŵr Cymru. Gellir darparu manylion pellach os oes angen.

CYNLLUNIO

Mae'r eiddo'n elwa o fod â chaniatâd cynllunio ar gyfer ei ddefnydd blaenorol felly bydd unrhyw ddefnydd amgen yn destun cais cynllunio a chaniatâd newydd ynghyd ag unrhyw ymgynghoriadau statudol eraill efallai y bydd angen eu cynnal.

CYFRADDAU

Bydd unrhyw ddefnydd amgen yn arwain at ailasesiad o'r ardrethi a fydd, er mwyn eglurder, i'w hysgwyddo gan unrhyw feddiannydd newydd.

TYSTYSGRIF PERFFORMIAD YNNI

Mae copi o'r Dystysgrif Perfformiad Ynni ar gael ar gais.

TAW

Mae'r holl ffigyrau heb gynnwys TAW lle bo hynny'n berthnasol.

RHEOLIADAU GWYNGALCHU ARIAN

Fel rhan o'n rhwymedigaethau o dan Reoliadau Gwyngalchu Arian y DU 2017, bydd EJ Hales yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw denant / prynwr ddarparu prawf adnabod ynghyd ag unrhyw ddogfennau gofynnol eraill.

Nid yw E J Hales na'r Gwerthwr yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw gamgymeriad, camddatganiad neu hepgoriad yn y manylion hyn. Bras yw'r mesuriadau ac at ddiben rhoi canllaw yn unig. Nid yw'r manylion hyn yn gyfystyr ag unrhyw gynnig neu gontract ac nid oes gan E J Hales nac unrhyw un y maent yn ei gyflogi unrhyw awdurdod i wneud unrhyw sylw na gwarant ynghlŵm â'r eiddo.

029 2037 8844 • www.ejhales.co.uk @ej_hales 28 Plas Windsor • Caerdydd • CF10 3SG

## Y BROSES DENDRO

Ar gyfarwyddyd Cyngor Caerdydd, ceisir datganiadau o ddiddordeb drwy Broses Dendro Anffurfiol i ddod i law heb fod yn hwyrach na diwedd y diwrnod busnes ar 24 Mawrth 2023.

Mae'n ofynnol cyflwyno pob cynnig i'r cyswllt isod, naill ai drwy'r post neu drwy e-bost.

Owen Cahill
EJ Hales
28 Plas Windsor
Caerdydd
CF10 3SG
owen@ejhales.co.uk

Dylai'r cynnig gynnwys:

1 Maes y safle sydd o ddiddordeb
2 Enw a chyfeiriad llawn y darpar denant
3 Defnydd / defnyddiau arfaethedig.
4 Profiad cefndir.
5 Cynllun Busnes (os yw ar gael).
6 Strwythur prydles arfaethedig.
7 Rhent neu rent tir arfaethedig.
8 Cymhelliant arfaethedig os oes angen (rhydd rhag rhent yn unig).
9 Manylion llawn y gwaith arfaethedig i'r safle a'r ardaloedd allanol.
10 Manylion llawn unrhyw amodau.
11 Cyllid.
12 Llinellau amser dangosol.

## YMWELD

Drwy apwyntiad yn unig drwy'r asiantau gosod tai, E J Hales, cysylltwch â:
**Phillip Morris** • Ffôn: **07779 666210** • E-bost: **pvm@ejhales.co.uk**
**Owen Cahill** • Ffôn: **07824 638338** • E-bost: **owen@ejhales.co.uk**

029 2037 8844 • www.ejhales.co.uk @ej_hales 28 Plas Windsor • Caerdydd • CF10

# Hailey Park - Changing Rooms and Car Park




© Hawlfraint y Goron Cadwir pob hawl. Y data ar y map yw'r wybodaeth orau sydd ar gael ac mae'n gywirdeb yn unig. Tra gwnaed pob ymdrech i sicrhau ei gywirdeb, ni ellir gwarantu hyn. Nid yw Cyngor yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw wallau ac y mae e dyla defnyddwyr gymryd eu hunain ar unrhyw wybodaeth a ddangosir yma. 100023376 ( 2022 )

© Crown Copyright. All Rights Reserved. The data provided on this map is the best available and is for information purposes only. Whilst every effort is made to ensure its accuracy no warranty can be given. The Council accepts no responsibility for any inaccuracies on this map and users should obtain their own expert advice on any information shown in it. 100023376 ( 2022 )

Gwelthio dros Gaerdydd, gweithio gyda'n gilydd
Working for Cardiff, working together

CARDIFF COUNCIL
CYNGOR CAERDYDD
www.cardiffcouncilproperty.com
www.eiddocynngorcaerdydd.com

# WW Pumping Station - Hailey Park




CARDIFF COUNCIL
CYNGOR CAERDYDD
www.cardiffcouncilproperty.com
www.eiddocyngorcaerdydd.com

Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda'n gilydd
Working for Cardiff, working together